



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Uwchradd Llanidloes  
Llanidloes  
Powys  
SY18 6EX**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau  
Estyn  
Llys Angor, Heol Keen  
Caerdydd  
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:  
[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/06/2016

## Cyd-destun

Ysgol gymunedol gymysg ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 18 oed a gynhelir gan awdurdod lleol Powys yw Ysgol Uwchradd Llanidloes. Mae'n ysgol cyfrwng Saesneg sydd â chryn dipyn o ddarpariaeth Gymraeg. Mae'r ysgol wedi ei lleoli yn nhref fechan Llanidloes ac mae'n gwasanaethu dalgylch mawr, gwledig yn bennaf. Mae'r ysgol yn rhannu ei champws ag ysgol gynradd. Mae canolfan Anhwylder y Sbectrwm Awtistig ar gyfer Gogledd Powys wedi ei lleoli yn yr ysgol. Mae 529 o ddisgyblion ar y gofrestr, a 72 disgybl yn y chweched dosbarth. Adeg yr arolygiad diwethaf, roedd 787 o ddisgyblion ar y gofrestr, a 123 disgybl yn y chweched dosbarth.

Mae tua 12.5% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 17.4%. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn byw yn y 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae tua 15% o ddisgyblion ar gofrestr anghenion ychwanegol yr ysgol, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 25.4%. Mae gan ryw 3% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae naw deg naw y cant o ddisgyblion yn Wyn Prydeinig. Mae deuddeg y cant o ddisgyblion yn rhugl yn y Gymraeg ac mae tua 4% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae llai nag 1% o ddisgyblion yn siarad iaith heblaw Saesneg fel eu mamiaith.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er Ionawr 2016. Mae'r uwch dîm rheoli yn cynnwys y pennaeth, dirprwy bennaeth a dau bennaeth cynorthwyol.

Y gyllideb ysgol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Uwchradd Llanidloes yn 2015-2016 yw £4,343. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion uwchradd ym Mhowys yw £4,565 a'r isafswm yw £3,778. Mae Ysgol Uwchradd Llanidloes yn y pedwerydd safle o'r 11 ysgol uwchradd ym Mhowys o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae'r perfformiad presennol yn dda oherwydd:

- yng nghyfnod allweddol 4, bu gwelliant graddol bron ym mhob un o'r dangosyddion allweddol dros y pedair blynedd ddiwethaf
- mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg a mathemateg wedi bod uwchlaw deilliannau wedi'u modelu am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf, er bod perfformiad mewn Saesneg wedi bod yn anghyson
- mae disgyblion yn gwneud cynnydd gwerthfawr o gyfnodau allweddol blaenorol, er bod perfformiad bechgyn mewn mathemateg islaw perfformiad bechgyn mewn ysgolion tebyg
- mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac maent uwchlaw'r rheiny ar gyfer disgyblion mewn ysgolion tebyg
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd buddiol yn ystod gwersi
- mae llawer o athrawon yn cynllunio gwersi'n dda, yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer eu disgyblion ac yn sefydlu perthnasoedd gweithio effeithiol sy'n galluogi disgyblion i gyflawni eu potensial, er bod ansawdd yr adborth ar waith disgyblion yn anghyson
- mae gan yr ysgol systemau cymorth effeithiol sy'n hyrwyddo ac annog lles, presenoldeb a chynnydd academiaidd disgyblion

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- mae gan y pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth weledigaeth glir ar gyfer dyfodol yr ysgol ac maent wedi sefydlu blaenoriaethau priodol ar gyfer gwella
- mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i wella safonau a phresenoldeb
- mae arweinwyr a rheolwyr wedi cynnal a gwella safonau mewn meysydd allweddol yn ystod cyfnod ansefydlog i'r ysgol
- mae llywodraethwyr yn gweithredu'n effeithiol wrth osod cyfeiriad strategol yr ysgol ac maent yn ffrindiau beirniadol gwerthfawr
- mae gan yr ysgol brosesau cadarn i arfarnu effeithiolrwydd y rhan fwyaf o'i meysydd gwaith a llywio ei chynllunio ar gyfer gwella, er nad yw systemau i arfarnu a gwella gwaith y tîm bugeiliol wedi eu datblygu'n ddigonol
- mae gan yr ysgol gynlluniau hunanarfarnu a datblygu manwl, er bod anghysondeb yn ansawdd cynlluniau hunanarfarnu a gwella meysydd y cwricwlwm
- mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ystod o bartneriaid i gynnal cwricwlwm priodol a sicrhau lles disgyblion

## Argymhellion

- A1 Gwella safonau mewn Saesneg a pherfformiad bechgyn ar draws yr holl ddangosyddion
- A2 Gwella cysondeb adroddiadau hunanarfarnu meysydd y cwricwlwm
- A3 Datblygu systemau i arfarnu gwaith y timau bugeiliol
- A4 Gwella cysondeb adborth athrawon ar waith disgyblion

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu yn dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Yng nghyfnod allweddol 4, bu gwelliant graddol bron ym mhob un o'r dangosyddion dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg a mathemateg wedi bod uwchlaw deilliannau wedi'u modelu am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf ac mae'n cyd-fynd â pherfformiad mewn ysgolion tebyg eraill. Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi gwella dros y pedair blynedd ddiwethaf, ond mae wedi bod islaw deilliannau wedi'u modelu am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, mae perfformiad fymryn uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg eraill. Mae perfformiad o ran ennill pum gradd A\* i A mewn TGAU wedi bod islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg eraill am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf, ond bu gwelliant sylweddol mewn perfformiad y llynedd ac roedd yn cyd-fynd â lefelau mewn ysgolion tebyg. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd gwerthfawr o gyfnodau allweddol blaenorol.

Mae perfformiad mewn mathemateg wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad mewn Saesneg wedi bod islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf.

Yn nhrothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg a mathemateg, mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal â'r un grŵp o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg. Mae bechgyn yn perfformio ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer y rheiny mewn ysgolion tebyg yn y dangosydd hwn. Mae perfformiad merched uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer merched mewn ysgolion tebyg.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd gwerth chweil yn eu dysgu ac yn cyflawni eu targedau.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau â'u haddysg yn yr ysgol neu mewn coleg addysg bellach.

Yng nghyfnod allweddol 3, bu gwelliant graddol yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd. Mae perfformiad wedi bod uwchlaw deilliannau wedi'u modelu ar gyfer tair o'r pedair blynedd ddiwethaf ac mae'n agos at berfformiad ysgolion tebyg.

Ym Mlwyddyn 13, mae bron pob un o'r disgyblion yn cyflawni trothwy lefel 3 ac mae perfformiad wedi bod yn agos at gyfartaledd Cymru am y pedair blynedd ddiwethaf. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni tair gradd A\* i A mewn Safon Uwch neu gyfwerth wedi bod yn agos at gyfartaledd Cymru, neu'n uwch, am y pedair blynedd ddiwethaf. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni tair gradd A\* i C wedi bod uwchlaw cyfartaledd Cymru ar gyfer dwy o'r pedair blynedd ddiwethaf ac yn agos at gyfartaledd Cymru ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae llawer o ddisgyblion yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg yn siarad ac ysgrifennu'n dda yn Gymraeg ac yn defnyddio eu medrau iaith yn briodol ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd gwerth chweil yn eu gwersi Cymraeg ail iaith. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu Cymraeg yn hyderus mewn cyfnodau cofrestru a gwasanaethau. Mewn Cymraeg mamiaith yng nghyfnod allweddol 4, mae mwyafrif y disgyblion yn cyflawni trothwy lefel 2. Mewn Cymraeg ail iaith, mae tua hanner y disgyblion yn cyflawni trothwy lefel 2. Mae perfformiad wedi bod uwchlaw perfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg eraill ar gyfer disgyblion mamiaith ac ail iaith fel ei gilydd am y pedair blynedd ddiwethaf.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd gwerthfawr yn eu gwersi. Maent yn galw gwaith blaenorol i gof yn gadarn ac yn cymhwyso hyn yn dda i ddysgu newydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda yn y dosbarth, yn dilyn cyfarwyddiadau eu hathrawon yn ofalus ac yn gwrando'n astud pan fydd disgyblion eraill yn siarad. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus yn y dosbarth ac wrth weithio mewn parau neu grwpiau. Defnyddiant derminoleg pwnc yn gywir a hyderus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn hyderus a chymwys. Maent yn dethol gwybodaeth yn gywir o ystod o wahanol adnoddau ac yn defnyddio gwybodaeth yn briodol i lunio casgliadau a chreu rhagdybiaethau. Mae gwaith ysgrifenedig y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi ei gyflwyno'n ddestlus a chywir ac mae'n briodol i'w hoedrannau a'u galluoedd. Defnyddiant sillafu, gramadeg ac atalnodi cywir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu darnau estynedig o waith sy'n briodol at wahanol ddibenion a chynulleidfaoedd. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig estynedig o ansawdd uchel mewn nifer o bynciau, gan gynnwys daearyddiaeth a hanes.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu a defnyddio eu medrau rhifedd yn dda ar draws nifer o bynciau. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio degolion, canrannau a ffracsiynau. Mae llawer o ddisgyblion yn dadansoddi data yn gywir ac yn llunio graffiau addas i arddangos eu canlyniadau.

### **Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn credu bod staff yn delio'n dda â'r achosion prin iawn o fwlio. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at addysgu a gwnânt gynnydd effeithiol mewn gwersi. Mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn ac maent uwchlaw'r cyfraddau ar gyfer disgyblion mewn ysgolion tebyg eraill. Mae presenoldeb wedi bod uwchlaw canlyniadau wedi'u modelu am y pedair blynedd ddiwethaf. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cymharu'n dda â'r un grŵp o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo bod digonedd o gyfleoedd iddynt wneud ymarfer corff yn rheolaidd yn yr ysgol ac yn y gymuned. Mae llawer ohonynt yn credu bod yr ysgol yn eu haddysgu ynglŷn â sut i gadw'n iach a diogel.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi, ac o gwmpas yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n weithredol â'u gwaith ac yn dangos parodrwydd i gymryd rhan yn eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrtais a pharchus at staff, eu cyfoedion a phobl sy'n ymweld â'r ysgol. Fodd bynnag, mae ychydig iawn ohonynt yn dangos ymddygiad anaeddfed o bryd i'w gilydd, ac fe gaiff hyn effaith ar gynnydd a dysgu eu cyfoedion yn y gwersi hynny.

Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain a chymryd cyfrifoldeb. Caiff disgyblion eu cynnwys yn helaeth mewn gwneud penderfyniadau am faterion sy'n effeithio ar eu lles. Mae disgyblion wedi cyfrannu eu syniadau yn effeithiol at benderfyniadau'r ysgol am eu gwisg ysgol, prydau canol dydd a chynlluniau datblygu'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn cyfleu gwaith y cyngor ysgol a'r canlyniadau y mae'n eu sicrhau ar gyfer disgyblion yn ddigon effeithiol.

Mae disgyblion yn cyfrannu'n dda at y gymuned trwy ddigwyddiadau codi arian a chyngherddau ysgol. Cânt eu paratoi'n dda ar gyfer bywyd a gwaith y tu allan i'r ysgol.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu gwerthfawr ar gyfer pob disgybl. Mae'n gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â choleg addysg bellach lleol ac ysgolion eraill yn yr ardal i ehangu'r dewisiadau pwnc sydd ar gael yng nghyfnod allweddol 4 a chyfnod allweddol 5. Caiff yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol, gyfle effeithiol i elwa ar gwricwlwm llawn.

Mae'r trefniadau ar gyfer y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn briodol ac yn ehangu. Mae'r ysgol yn bodloni anghenion ieithyddol y disgyblion a'r gymuned yn dda ac mae pob un o'r disgyblion yn dilyn y cwrs llawn Cymraeg TGAU mamiaith neu ail iaith hyd at ddiwedd cyfnod allweddol 4. Caiff ethos Cymreig yr ysgol ei hyrwyddo'n llwyddiannus trwy wasanaethau ac ystod addas o weithgareddau allgyrsiol.

Rhoddir cymorth effeithiol i'r holl ddisgyblion sy'n cael anhawster â'u medrau rhifedd. Mae'r cymorth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol i ddatblygu eu medrau llythrennedd wedi'i ddatblygu'n dda. Fodd bynnag, nid yw'r cymorth i ddisgyblion eraill ddatblygu eu medrau llythrennedd mor effeithiol ac mae'n rhy anffurfiol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion mwy abl yn datblygu'n dda ac mae'r ysgol yn cynnig cyfle gwerthfawr iddynt astudio pynciau TGAU ychwanegol ar ôl yr ysgol ac yn ystod amser cinio.

Mae'r ysgol wedi cynllunio'r cyfleoedd ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd ar draws yr holl bynciau'n effeithiol gan ddefnyddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd boddhaol o ran rhoi strategaethau ar waith i ddatblygu'r medrau hyn ar draws holl feysydd y cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol ac yn nodweddiadol gref yn ethos yr ysgol gyfan. Mae'r ysgol yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o faterion byd-eang trwy weithgareddau allgyrsiol gwerthfawr, fel y Cyngor Eco effeithiol.

### **Addysgu: Da**

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn fodolau iaith effeithiol, yn frwdfrydig ynglŷn â'u pynciau ac mae ganddynt wybodaeth bynciol gyfoes.



Mae lleiafrif o athrawon yn cynllunio eu gwersi'n dda iawn ac yn paratoi gweithgareddau heriol sy'n cymell ac yn ennyn diddordeb disgyblion o bob gallu. Maent yn gosod cyflymdra heriol i'w gwersi ac yn defnyddio eu hamser yn effeithiol. Mae'r athrawon hyn yn sefydlu perthnasoedd gweithio cryf iawn sy'n galluogi disgyblion i gyflawni safonau uchel. Defnyddiant holi mewn modd sy'n herio syniadau disgyblion ac yn eu galluogi i ymestyn eu dealltwriaeth.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio'u gwersi'n dda ac yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer eu disgyblion. Maent yn sefydlu perthnasoedd gweithio effeithiol sy'n galluogi disgyblion i gyflawni eu potensial. Defnyddiant strategaethau effeithiol ac adnoddau addas i ennyn diddordeb eu disgyblion, ac ymgysylltu â nhw. Maent yn rhoi arweiniad clir ar yr hyn sy'n ddisgwyliedig ac yn defnyddio holi'n effeithiol i fonitro eu cynnydd.

Mewn rhai gwersi, nid yw athrawon yn cynllunio gweithgareddau diddorol a difyr i ennyn diddordeb disgyblion. Mae'r gwersi hyn yn symud yn rhy araf ac nid yw disgyblion yn gwneud y cynnydd y dylent ei wneud. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon da i fodloni anghenion pob disgybl yn y dosbarth. Nid yw ychydig iawn o athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn ddigon da i'w galluogi i gyflawni eu llawn botensial.

Mae llawer o athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig defnyddiol i ddisgyblion ar eu gwaith ac yn gosod targedau addas ar gyfer gwella. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, nid yw sylwadau athrawon yn ddigon penodol i roi gwybod i ddisgyblion beth y dylent ei wneud i wella eu gwaith. Fodd bynnag, ychydig o ddisgyblion yn unig sy'n gweithredu yn unol â sylwadau athrawon ac yn cywiro eu gwaith. Mae llawer o ddisgyblion yn elwa ar gyfleoedd i farcio ac asesu eu gwaith eu hunain ac yn gwella eu dealltwriaeth eu hunain trwy farcio gwaith eu cyfoedion o bryd i'w gilydd. Mae llawer o athrawon yn rhoi adborth llafar cefnogol ac adeiladol i ddisgyblion yn ystod gwersi.

Mae gan yr ysgol system ddefnyddiol i gofnodi cynnydd disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr blwyddyn yn olrhain cynnydd grwpiau gwahanol o ddisgyblion yn effeithiol ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio cymorth ychwanegol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwybod eu graddau targed ac yn deall yn dda beth mae'n rhaid iddynt ei wneud i gyflawni'r rhain. Mae athrawon yn asesu ac adrodd ar gynnydd disgyblion yn ffurfiol o leiaf deirgwaith y flwyddyn ar ffurf adroddiadau interim ac adroddiadau llawn. Mae'r adroddiadau cynhwysfawr hyn i rieni yn glir ac adeiladol, ac yn gosod targedau addas ar gyfer gwella.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn darparu gofal, arweiniad a chymorth gwerthfawr ar gyfer pob un o'r disgyblion, beth bynnag fo'u hanghenion. Mae systemau cymorth effeithiol yn hyrwyddo ac annog lles, presenoldeb a chynnydd academaidd disgyblion. O ganlyniad, mae presenoldeb disgyblion wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac mae safonau'n gwella.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol i hyrwyddo iechyd a lles yr holl ddisgyblion. Maent yn dysgu sut i fwyta'n iach ac yn cymryd rhan mewn ystod eang o

weithgareddau sy'n eu hannog i fyw bywydau gweithredol. Mae darpariaeth addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol yn codi ymwybyddiaeth disgyblion am ystod gynhwysfawr o faterion ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

Mae'r ysgol yn rhoi gwybodaeth ac arweiniad defnyddiol i rieni a disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 i'w helpu â'u dewisiadau opsiwn.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o wasanaethau allanol i sicrhau bod disgyblion sy'n agored i niwed yn cael cyfle i fanteisio ar ystod gynhwysfawr o gymorth. Yn yr ysgol, mae staff cymorth GOFAL (Rhoi Cyfleoedd i Bawb Ddysgu) yn rhoi cymorth o ansawdd uchel i bob un o'r disgyblion ac yn delio'n effeithiol â'r achosion prin iawn o aflonyddwch a bwlio. Maent yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion â phroblemau ymddygiad hefyd pan gânt eu tynnu allan o wersi.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae rhaglenni dysgu ac ymyriadau targedig gwerth chweil yn sicrhau bod y disgyblion hyn yn gwneud y cynnydd disgwylidig. Nodwedd nodedig o'r ysgol yw'r modd y caiff disgyblion o Uned Anhwylder y Sbectwm Awtistig eu hintegreiddio'n llwyddiannus mewn pynciau prif ffrwd i ehangu eu cyfleoedd a'u profiadau.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos gofalgwr a chynhwysol iawn ac mae'n rhan bwysig o gymuned sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn herio stereoteipiau. Adlewyrchir hyn yn dda yn arwyddair yr ysgol, sef 'Rhoi Cyfleoedd i Bawb Ddysgu' ('Giving Opportunities for All to Learn', GOFAL). Mae'r ysgol yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cael yr un cyfle i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd diogel sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a pharch yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod staff yn eu trin yn deg a gyda pharch.

Caiff yr adeiladau a'r tir helaeth eu cynnal yn dda ac maent yn ddigonol i fodloni anghenion disgyblion. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r cyfleusterau chwaraeon ar y campws i annog iechyd a lles disgyblion. Mae'n darparu amgylchedd addas ar gyfer dysgu ac yn gwneud y defnydd gorau o'r adeiladau sydd ar gael. Maent yn ddeniadol ac yn cael eu cynnal yn dda ar y cyfan. Ceir adnoddau digonol, gan gynnwys offer ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, i gefnogi dysgu.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Aeth yr ysgol trwy gyfnod ansefydlog yn 2015 ac ymgwymerodd nifer o staff uwch â swyddi arwain dros dro. Mae penodi'r pennaeth newydd yn Ionawr 2016 wedi dod â mwy o sefydlogrwydd i'r ysgol. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth bellach wedi cael ei sefydlu ynghyd â thîm arweinyddiaeth estynedig, sy'n darparu eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau ysgol gyfan.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer dyfodol yr ysgol, sy'n seiliedig ar godi safonau a bodloni anghenion pob un o'r disgyblion. Mae'r weledigaeth yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, ac fe gaiff ei chyfleu'n effeithiol i staff, rhieni a phartneriaid. Mae'r pennaeth a'r tîm arweinyddiaeth wedi nodi a gosod blaenoriaethau priodol ar gyfer gwella. Mae'r rhain yn cynnwys gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu, a datblygu ethos gofalgarg yr ysgol. Er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau hyn, mae uwch arweinwyr wedi cryfhau llinellau atebolrwydd ar draws yr ysgol, gan gynnwys herio perfformiad rheolwyr canol.

Mae arweinyddiaeth effeithiol yn yr ysgol, gan gynnwys gwaith arweinwyr meysydd cwricwlwm, wedi cael effaith gadarnhaol ar berfformiad yn y blynyddoedd diwethaf. Mae wedi helpu i sicrhau deilliannau cryf yn y dangosydd allweddol sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg, deilliannau cryf iawn mewn mathemateg a gwelliant yn y sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i chapio. Mae gan uwch arweinwyr rolau wedi'u diffinio'n glir, gan gynnwys bod yn rheolwyr llinell ar arweinwyr meysydd cwricwlwm ac arweinwyr blwyddyn. Mae'r ysgol yn neilltuo amser yn briodol i uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ymgymryd â'u rolau arwain. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd ac effeithiol rhwng arweinwyr canol a'u rheolwyr llinell. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cynnwys agendâu priodol, ac fe gaiff pwyntiau gweithredu a ddatblygir yn y cyfarfodydd hyn eu cofnodi a'u monitro'n briodol. Mae'r trefniadau hyn yn effeithiol o ran herio a chefnogi gwaith holl feysydd y cwricwlwm. Mae arweinwyr blwyddyn yn cyfrannu'n dda at waith yr ysgol o ran monitro cynnydd disgyblion yn effeithiol a rhoi cymorth iddynt pan fydd angen.

Mae gan bob un o'r staff swydd-ddisgrifiadau clir a phriodol. Mae'r ysgol yn dwyn staff sy'n tanberfformio i gyfrif yn gynyddol ac mae'n darparu cymorth priodol ar gyfer gwella.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn drylwyr ac yn cynnwys ffocws priodol ar safonau cyflawniad ac ansawdd yr addysgu. Mae arweinwyr yn rhoi'r rhain ar waith yn effeithiol i osod targedau mesuradwy a heriol. Mae'r system rheoli perfformiad yn nodi gofynion datblygiad proffesiynol yn briodol.

Mae gan yr ysgol gorff llywodraethol ymroddgar ac effeithiol, sy'n cyflawni ei rôl fel ffrind beirniadol yn dda. Mae llywodraethwyr yn gwybod yn dda beth yw cryfderau a gwendidau'r ysgol ac maent yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau, gan roi trosolwg defnyddiol iddynt o fywyd a gwaith yr ysgol.

### **Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar waith i arfarnu effeithiolrwydd a llywio ei chynllunio ar gyfer gwella. Mae gan uwch arweinwyr ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Maent wedi gwneud cynnydd gwerth chweil o ran datblygu dull mwy trylwyr o hunanarfarnu a chynllunio gwelliant.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu ysgol gyfan yn darparu disgrifiad addysgiadol o lawer o agweddau ar waith yr ysgol. Mae'n defnyddio ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys arfarniad manwl o gyrhaeddiad disgyblion dros gyfnod o gymharu â chyrhaeddiad ysgolion tebyg a meincnodau cenedlaethol. Mae'n ystyried safbwyntiau disgyblion a rhieni'n effeithiol ar ystod eang o faterion yn gysylltiedig â bywyd ysgol trwy baneli disgyblion, holiaduron ac arolygon.

Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn craffu ar waith disgyblion a chanlyniadau arsylwadau gwersi'n rheolaidd i lywio eu dealltwriaeth o safonau yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw arsylwadau o wersi yn canolbwyntio'n ddigonol ar y cynnydd a wna disgyblion mewn gwersi nac yn nodi meysydd i'w gwella ar gyfer athrawon unigol yn ddigon clir. Yn yr un modd, nid yw arfarniadau o waith disgyblion yn canolbwyntio'n ddigon da ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion nac ar effaith asesiadau athrawon o'u cynnydd.

Mae mwyafrif adroddiadau hunanarfarnu meysydd cwricwlwm yn darparu dadansoddiad trylwyr o ddata perfformiad. Fodd bynnag, nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddatblygu medrau disgyblion, nac ar effaith y ddarpariaeth a'r addysgu. O ganlyniad, nid ydynt yn nodi meysydd i'w gwella yn ddigon manwl. At ei gilydd, mae gormod o anghysondeb yn ansawdd cynlluniau hunanarfarnu a chynlluniau gwella meysydd cwricwlwm.

Nid yw'r trefniadau ar gyfer arfarnu gwaith ac effaith arweinwyr bugeiliol wedi eu datblygu'n ddigonol. Nid oes dull cydlynus, strategol ar gyfer nodi cryfderau ac agweddau y mae angen eu gwella yn eu meysydd cyfrifoldeb.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn cysylltu'n agos iawn â'r adroddiad hunanarfarnu. Mae'n amlinellu ei blaenoriaethau dros gyfnod o dair blynedd yn glir a chryno. Mae'n canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau cenedlaethol a blaenoriaethau'r ysgol ac yn amlinellu'n glir sut mae'n anelu at gyflawni ei thargedau ar gyfer 2015-2016. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw meini prawf llwyddiant yng nghynllun datblygu'r ysgol yn ddigon penodol.

Nid yw mwyafrif y targedau mewn cynlluniau gwella meysydd cwricwlwm yn ddigon penodol. Mewn rhai achosion, nid ydynt yn mynd i'r afael â'r meysydd pwysig i'w gwella a nodwyd yn eu hadroddiad hunanarfarnu nac yn nodi'n glir beth mae angen i'r maes cwricwlwm ei wneud i wella. At ei gilydd, mae cynlluniau gwella meysydd cwricwlwm yn amrywio gormod o ran ansawdd a chysondeb.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi datblygu llawer o bartneriaethau buddiol sy'n gwella ei darpariaeth, yn hyrwyddo lles ac yn codi dyheadau ei disgyblion. Mae wedi datblygu cysylltiadau bugeiliol effeithiol gydag ysgolion cynradd partner sy'n sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n ddiraffferth o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda â'i phartneriaid o fewn Consortiwm 14-19 Gogledd Powys a'r coleg addysg bellach lleol i ymestyn ystod y cyrsiau galwedigaethol ac academiaidd ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar waith i sicrhau ansawdd gwaith y partneriaid hyn. Mae'n gweithio'n hawdd iawn ag ystod eang o gyflogwyr a busnesau o'r gymuned leol. Maent yn darparu ffug gyfweiliadau gwerthfawr ar gyfer holl ddisgyblion Blwyddyn 11, a chyfleoedd profiad gwaith pwysig ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 12 bob blwyddyn.

Mae gan yr ysgol berthnasoedd cadarnhaol â rhieni a gofalwyr, sy'n teimlo eu bod yn cael eu hysbysu'n briodol am les a chynnydd eu plant. Mae staff bugeiliol yn

datblygu cysylltiadau â rhieni ac asiantaethau allanol i gynorthwyo disgyblion sy'n fwy agored i niwed. Sicrhodd y gwaith effeithiol iawn hwn nad adawodd yr un disgybl yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig yn 2014-2015.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn cyflogi nifer ddigonol o staff, â chymwysterau addas i gyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys. Mae'n defnyddio'i staff yn briodol ac mae'r rhan fwyaf o athrawon yn addysgu eu pynciau arbenigol. Mae'r ysgol yn cyflogi nifer briodol o staff nad ydynt yn addysgu a staff cymorth dosbarth sy'n cynorthwyo athrawon dosbarth yn dda.

